

# **Cerfio Gofod**

## **Pecyn Addysg – Arlunio**



### **Canolfan Grefftau Rhuthun**

**Ionawr 12fed – Mawrth 10fed 2013**

## Cerfio Gofod: Rhagarweiniad

Ionawr 12fed – Mawrth 10fed 2013

Oriel 1, 2 & 3

Mae *Cerfio Gofod* yn dod â phum artist a gwneuthurwyr sy'n fforio gofod deallusol a ffisegol drwy'r broses o gerfio, at ei gilydd: y gweithiau i gyd wedi eu hysbysu gan weithio'n agos â'r defnyddiau, a gofod lleoliadau daearyddol penodedig. Fe gysylltir gwaith o wahanol draddodiadau ffurfiol – cerfluniaeth; dodrefn; cerfio llythrennau a gemwaith – gan synnwyr o ddiwylliant dynol sy'n cael ei ail-ffurfio'n gyson gan berthynas â phrosesau deinamig y byd naturiol. Yn ogystal â gwrthrychau, fe fydd yna ffotograffau o weithiau a darluniau sy'n safle-sbesiffig.

Mae'r pecyn hwn wedi ei ddylunio i gynorthwyo athrawon ac addysgwyr gyda chynllunio ymweliad â'r arddangosfa gyda syniadau a awgrymir, gweithdai a phwyntiau trafod. Mae'n canolbwyntio ar arlunio fel dull o fforio'r gweithiau a meddwl am ymarferiad artistiaid. Mae'r gweithgareddau'n addas i bob oed a gellir eu haddasu ar gyfer eich anghenion chi cyn, yn ystod ac ar ôl eich ymweliad.



Warwick Freeman  
*A Different Black*, 2013  
Gwahanol ddefnyddiau

## Cynnwys

Cyflwyniad i arlunio	tudalen 4
Defnyddiau	5
Gary Breeze <i>ffurfiau llythrennau</i>	6
Warwick Freeman <i>gemwaith</i>	8
Jim Partridge, Liz Walmsley <i>dodrefn</i>	9
David Nash <i>cerfluniaeth</i>	10
Guy Taplin <i>adar cerfiedig</i>	12



Jim Partridge  
a Liz Walmsley  
*Rocking chair, 2012*  
Derw llosgedig  
u 1160 x ll 370 x d 475mm

## Cyflwyniad i arlunio

Mae arlunio'n weithgaredd sydd gyn hyned â gwareiddiad ei hun. Fe wnaethpwyd y ffurfiau celfyddyd cynharaf gan y rheiny a oedd yn byw mewn ogofâu drwy wneud marciau mewn carreg neu ar garreg, gan ddefnyddio ba ddefnyddiau bynnag a oedd ar gael iddyn nhw. Fe wnaethpwyd y darluniau cyntaf i gyfleu negeseuon neu i gofnodi digwyddiadau pwysig, ond fel y daeth technegau a defnyddiau'n goethach, roedd yn amlwg fod arlunio'n ddull o hunanfyneiant hefyd, a ddefnyddid i addurno gwrthrychau, i adrodd straeon ac i greu delweddau gweledol o dduwiau a bodau mytholegol.

Fe ddatblygodd darluniau hefyd fel ffordd o ystyried syniadau, o gynllunio, o ddylunio. Roedd yn ddull o gael ateb i berthynas dyn â'i amgylchoedd drwy fapiau, o siartio tiroedd newydd a dynodi ffiniau.

I artistiaid, gall arlunio fod yn gam cyntaf yng nghread gwaith – gwneud brasluniau paratoadol, creu marciau y gellir chwarae o gwmpas efo nhw a'u datblygu'n baentiad. Gellir defnyddio darluniau fel patrwm, templed neu ddiagram i weithio allan gerfluniau a cherfiadau. Gall darlun fod yn waith celfyddydol ynddo'i hun hefyd.

Ydi arlunio'n ffordd o gofnodi'r hyn a welwn ni neu fynegi'r ffordd yr ydym yn teimlo? Oes raid i ni feddwl am yr hyn rydyn ni'n ei fraslunio neu a allwn ni ddwdlan yn isymwybodol? Ydi o'n golygu gwneud llinellau neu gawn ni ddefnyddio blotiau? A all darlun 2D ddarlunio gofod 3D? Oes raid i ni ddefnyddio pensil a phapur neu a allwn ni arbrofi ag ystod eang o ddefnyddiau a thechnegau?

Mae *Cerfio Gofod* yn cynnig cwmpas diddiwedd i fforio gwahanol agweddau tuag at arlunio. Fe allai cerflunydd ein gwneud yn ymwybodol o ofod, drwy gerfio i mewn i rywbeth, ei ddisgrifio a'i agor allan. Mae gwrthrychau'n bodoli yn ein byd – maen nhw'n real! Mae arlunio ar y llaw arall yn creu ffugdelwedd o ofod drwy farciau a wneir ar arwyneb.

Mae'r pecyn yma'n rhoi cyflwyniad byr i bob un o'r artistiaid gyda nifer o syniadau ac awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'u gwaith. I gael gwybodaeth bellach am yr arddangosfa, mae yna gatalog eglurhaol:

Cerfio Gofod, Cyhoeddwyd gan Ganolfan Grefft Rhuthun, 2013 ISBN 978-1-905865-51-2

## Defnyddiau

...Pensiliau Sialc Papur Paent Inc Cerdyn Pastelau Creon Pennau Brwshis Marcwyr Golosg Ffelt Tips Graffit Photoshop Dyfrlliw Stylus Edau Plastisin Lliwiau Weiren Conté Fabrig Silverpoint Biro Tablet...

Mae yna ystod eang o adnoddau ar-lein defnyddiol gyda chynghor a gwybodaeth ar ddefnyddiau ar gyfer arlunio. Dyma rai safleoedd a awgrymir:

[http://drawsketch.about.com/od/coloredpencil/qt/cp\\_materials.htm](http://drawsketch.about.com/od/coloredpencil/qt/cp_materials.htm)

<http://learningtodraw.net/>

<http://www.vam.ac.uk/content/articles/d/drawing-materials-and-media/>

AND IN THIS HE SHEWED ME  
A LYTL THYNG; THE QUANTITE  
OF A HASYL NOTT, LYENG IN  
THE PAWME OF MY HAND AS  
IT HAD SEMED. AND IT WAS AS  
ROWNDE AS ENY BALL. I LOK  
-ED THER UPON WITH THE EYE  
OF MY UNDERSTONDYNG & I  
THOUGHT WHAT MAY THIS BE?  
AND IT WAS ANSWERED THUS:  
IT IS ALL THAT IS MADE

Gary Breeze  
*Drawing for Quantity  
of a Hazelnut, 2010*  
Pensil ar bapur

u 400 x ll 400mm

## **Gary Breeze *ffurfiau llythrennau***

Fe anwyd Breeze yn Norfolk, 1966 ac ar wahân i gyfnod byr yn Llundain lle y sefydlodd ei weithdy cyntaf, mae wedi treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd yn East Anglia. Er ei fod yn arddangos yn eang ac mae wedi gwneud comisiynau ledled Prydain ac yn rhyngwladol, mae ei waith wedi ei wreiddio'n ddwfn yn sir ei gartref. Mae llawer o'i gelfyddyd â chyfeiriadau at dirwedd East Anglia, ei hanes morwrol a'i thafodiaith gyfoethog.

Mae llythrennu'n gelfyddyd sydd â thraddodiad hir, yn dechrau gydag arysgrifau cerfiedig ar gyfer henebion ac adeiladau. Mae wedi cadw ei draddodiad â phensaerniaeth a geiriad ar gyfer cerflunwaith, ond yn hanesyddol fe'i hystyrid yn grefft yn hytrach na 'chelfyddyd gain', a wnaethpwyd fel rheol gan seiri maen. Yn yr ugeinfed ganrif, cafodd celfyddyd llythrennu gydnabyddiaeth o'r diwedd, diolch i artistiaid fel Eric Gill, Tyson Smith ac Ian Hamilton Finlay yr oedd eu cerfluniau'n corffori geiriau cerfiedig yn aml.

Mae gwaith cyhoeddus Breeze yn cynnwys Senedd Newydd yr Alban, Caeredin (2004), Cofadail Bomio Bali yn Llundain (2005) a Ffownten Cloestr Eglwys Crist, Rhydychen (2010)

Mae nifer o weithiau Breeze yn defnyddio tafodiaith Norfolk fel ffordd o ddiogelu iaith. Mae ***Norfolk Ornithology 2004***, yn rhestru gwahanol rywogaethau adar brodorol Norfolk ynghyd â'u henwau lleol wedi eu cerfio ar lechen wedi'i hadfer.

Testun a gymerwyd o ddyddiadur, na chafodd ei gyhoeddi, gan Anne Gathorne-Hardy, 14 oed, 1926 ydi ***Anne's Diary II 2009***. Mae ei dyddiadur yn cynnwys disgrifiadau a darluniau o gychod a llongau a hynny'n datgelu ei gwybodaeth fanwl o'r llongau a welai yn ei Suffolk brodorol ac yn ystod teithiau ym Môr y Canoldir.

### **Gwaith mewn Ffocws: *Drawing for Quantity of a Hazelnut 2010***

Mae'r darlun hwn yn rhoi mewnwelediad i'r ffordd y mae'r artist yn ymdrin â chomisiwn llythrennu. Cyn cerfio carreg bydd yn cynhyrchu brasluniau i ddechrau i weithio allan y gofod rhwng y geiriau a sut y bydd ffurfiau'r llythrennau'n ymddangos ar y panel. Pan fydd yn hapus â'r darlun bydd yn defnyddio hynny fel templed i ddargopio'r dyluniad ar y deunydd sydd i'w gerfio.

Fe wnaethpwyd y darlun arbennig yma ar gyfer *The Quantity of a Hazelnut – Vision of the Earth by St Julian*, un o wyth o banelau cerfiedig a gynhyrchwyd ar gyfer Ysbyty St Julian, Norwich yn darlunio delweddau a thafodiaith leol.

'Julian of Norwich' fel y daethpwyd i'w hadnabod, oedd yr ysgrifennwr benywaidd gyntaf i ysgrifennu yn Saesneg. Nid yw ei henw iawn yn hysbys ond trigai mewn annedd a oedd ynghlwm ag eglwys St Julian yn Norwich yn ystod y 14g.

## Gweithgareddau

**Copiwch** arddull y llythrennu o un o weithiau Breeze a gwnewch eich darlun eich hun o gerdd, o gân neu ddywediad. Neu, lluniwch restr o'ch dewis chi - enwau ar gyfer gwahanol anifeiliaid, lleoedd, pobl etc

**Ffeindiwch** wahanol enghreifftiau o ffontiau ac ysgrifennwch eich enw ynddyn nhw. Gallech ddyfeisio eich arddull llythrennu personol eich hun a'i addurno â lliwiau, gweadau etc.

**Gwnewch** gerflun o'ch darluniau llythrennu drwy fodelu neu gerfio geiriau mewn slab o glai, plastisin neu fimo. Defnyddiwch bigiadau pin drwy amlinell dargopi i drosglwyddo'r darlun i glai. Rholiwch 'sosejys' tenau o glai i fodelu geiriau mewn cerfwedd.

**Archwiliwch** ffotograffau o waith cyhoeddus Breeze. Ffeindiwch beth mae'r arysgrifau'n ei ddweud. Ydych chi'n meddwl fod y geiriad a'r llythrennu'n briodol ar gyfer eu hamgylchoedd?

**Darganfyddwch** esiamplau o lythrennu cerfiedig ar henebion cyhoeddus, cerfluniau neu adeiladau. Gwnewch frasluniau neu cymerwch ffotograffau. Pam fod y geiriau yno?

**Dilynwch** un o weithiau Breeze sydd ar y gweill o'r ysbrydoliaeth gyntaf i'r arlunio a'r cerfiad gorffenedig ar: <http://www.flickr.com/photos/43389731@N03/>

**Arluniwch** o gwmpas llythrennau plastig (ar gael yn rhad ar-lein e.e. ar Amazon). Crëwch flociau o destun ac yna eu lliwio â phennau, inc neu baent.

## Adnoddau Pellach:

Simon Garfield, *Just my Type: a Book about Fonts*, Profile Books, 2011

Tom Perkins, *The Art of Carving Letters in Stone*, The Crowood Press 2007

[http://www.garybreeze.co.uk/public\\_commissions.html](http://www.garybreeze.co.uk/public_commissions.html)

<http://www.emorypresbyterian.org/sermons/Julian2010.pdf>

<http://www.memorialsbyartists.co.uk/commissioning/lettering-tradition/>

<http://www.youtube.com/watch?v=hathx3QpX8A>

## **Warwick Freeman *gemwaith***

Wedi ei eni yn Nelson Seland Newydd 1953, mae Freeman wedi ei hunanaddysgu gan fwyaf a dechreuodd wneud gemwaith yn dilyn dwy flynedd o deithio yn y 1970au cynnar. Mae ei waith wedi ei ysbrydoli gan ystod eang o ffynonellau, yn cynnwys celfyddyd diwylliannau eraill, ffurfiau naturiol a gwrthrychau y daethpwyd o hyd iddyn nhw, yn enwedig yr olaf: 'the found object, the found drawing, the found idea'. Mae rhai o'r gwrthrychau sydd wedi eu corffori yn ei ddyluniadau'n cynnwys: cregyn, cerrig crynion, esgyrn, hoelion, allweddi, dannedd anifeiliaid ...crafangau a phigau adar hyd yn oed!

Mae eitemau Freeman sydd wedi eu llunio'n ofalus iawn wedi eu cymharu â cherfluniau bychan iawn, ond mae o'n gwneud sylw o'r ffaith bod eu ffurfiau'n cael eu pennu gan eu swyddogaeth fel gemwaith; 'they must answer to the demands of weight and wear-ability.'

Mae Freeman hefyd wedi gwneud cymariaethau rhwng y cyfuniadau o ddefnyddiau y bydd yn eu defnyddio ag iaith gan ddweud 'Materials are my words...it's gathering the words together and I might end up with a sentence that makes some sense.'

## **Gweithgareddau**

**Crynowch** gasgliad o wrthrychau a 'ffeindiwyd' a gwneud darluniau, rhwbiadau a ffotograffau, neu fe allech arlunio o'u cwmpas. Torrwch y delweddau hyn allan ac yna eu gludo'n 'collage' neu eu hongian ar edau. Gallech rollo clai sy'n aer-sychu a thorri siapiau yn hwnnw a phaentio ac addurno'r ffurfiau'n nes ymlaen.

**Trafodwch** y rheswm y bydd pobl yn gwisgo gemwaith. Ydi o'n ffurf ar fynegiant personol? Ai diwylliannol ydi o? Ai crefyddol ydi o? Fyddwch chi'n gwisgo gemwaith? Os byddwch chi, beth fyddwch chi'n ei wisgo a pham? Beth mae gemwaith yn ei ddweud wrthoch chi am y gwisgwr? Gwnewch frasluniau o wahanol fathau o emwaith ac yna gwnewch eich dyluniadau eich hun.

**Ewch i ymweld** ag amgueddfa a gwneud brasluniau o emwaith o hanes. Mae gwrthrychau a grëwyd i addurno'r corff ymysg y ffurfiau celfyddyd hynaf. Mynnwch wybodaeth am wahanol fathau o emwaith o ddiwylliannau a gwareiddiadau eraill.

**Rhestrwch** y gwahanol ddefnyddiau a ddefnyddir yng ngemwaith Freeman a gwnewch waith llythrennu yn arddull Gary Breeze! Gallech liwio'r geiriau yn arlliwiau'r gemwaith.

## **Adnoddau Pellach:**



Jinks McGrath, *The New Encyclopedia of Jewellery Making Techniques*, Search Press 2010

[http://www.fingers.co.nz/exhibitors/warwick\\_freeman.htm](http://www.fingers.co.nz/exhibitors/warwick_freeman.htm)

[https://www.thearts.co.nz/artist\\_page.php?aid=63](https://www.thearts.co.nz/artist_page.php?aid=63)

[http://www.youtube.com/watch?v=2\\_ed8iv6Snc](http://www.youtube.com/watch?v=2_ed8iv6Snc)

## **Jim Partridge, Liz Walmsley *dodrefn***

*'Designing, experimenting, making; the directness of handling of tools, materials and ideas allows us fluidity...this is how we carve out a space.'*

Mae Jim Partridge a Liz Walmsley wedi bod yn cydweithio ers 1988 ar amrywiaeth o brosiectau'n cynnwys *dodrefn* a cherfluniaeth ymarferol fel powlenni, byrddau, pontydd, llochesi ar lechweddau a gwaith ar gyfer safleoedd dan do ac yn yr awyr agored.

Wrth greu eu gwaith unigryw, maen nhw'n defnyddio pren heb ei drin, cynion, llifiau cadwyn a chwythlampau. Proses nod masnach benodedig ydi llosgi a chwyro pren, sy'n pwysleisio gwead y graen gan wneud eu gwrthrychau'n hynod gyffyrddol eu hansawdd. Caiff lliw cyfoethog ei gyflwyno'n aml i bwysleisio'r cyferbyniad rhwng tu mewn a thu allan eu ffurfiau.

Mae comisiynau arwyddocaol yn cynnwys Grizedale Forest, y Comisiwn Coedwigaeth, Canolfan Gelf Wrawick ac maen nhw â gwaith mewn sawl casgliad yn cynnwys y V&A, Llundain ac Oriel Gelf Manceinion. Mae gwaith yn yr arddangosfa'n cynnwys: *The Butterworth Bench*, Prifysgol Warwick 2012, *Bowl Table* 2012 a *Rocking Chair* 2012

### **Gweithgareddau**

**Trafodwch** agweddau ar ddylunio ar gyfer *dodrefn* a llestri. Gwnewch restr o ofynion e.e. siâp, defnyddiau, nodweddion, graddfa, lliwiau. Oes gan wrthrychau awyr agored ofynion gwahanol i'r rheiny by ddwch yn eu defnyddio dan do?

**Dyluniwch** eich cerflun ymarferol eich hun fel cadair, bwrdd neu ddesg. Gwnewch nodiadau ar eich darlun am y defnyddiau y byddech yn eu defnyddio i wneud y gwrthrych a disgrifiwch y nodweddion unigryw y mae eich dyluniad yn eu corffori.

**Gwnewch** ddarlun manwl o un o ddarnau Partridge a Walmsley gan ganolbwyntio ar y gwahanol weadau. Sut allwch chi wahaniaethu rhwng arwynebau caboledig a graen garw yn eich darlun? Pa ddefnyddiau yw'r gorau i'r pwrpas yma – pensil, creon, golosg...?

**Dychmygwch** ddefnyddio un o ddarnau Partridge a Walmsley neu fod ag un yn eich cartref. Pa un fyddech chi'n ei ddewis a pham? Tynnwch lun o'r gwrthrych mewn ystafell yn eich tŷ... â'ch teulu'n ei ddefnyddio!

## Adnoddau Pellach:

<http://www.jplw.co.uk/>

[http://www.scottish-gallery.co.uk/images/artists/From Black to Gold Collect 2012.pdf](http://www.scottish-gallery.co.uk/images/artists/From%20Black%20to%20Gold%20Collect%202012.pdf)

## David Nash *cerfluniaeth*

Ganwyd Nash yn Esher, Swydd Surrey 1945 ond fe dreuliodd y rhan fwyaf o wyliau ei blentyndod ym Mlaenau Ffestiniog lle mae'n byw yn awr. Roedd ei dad yn berchen ar goedwig yng Ngogledd Cymru ac roedd yn gweithio ynddi ac yn dysgu am blannu a rheoli coed a hefyd y gwahanol fathau o bren. Mae ei ethos artistig wedi bod yn un o ymglymiad ffisegol, uniongyrchol â'r defnydd organig yma ac o ymateb i'r byd naturiol.

Mae Nash wedi gweithio ledled y byd fel cerflunydd, yn cerfio pren â chynion, llifiau cadwyn a bwyell a chreu celfyddyd tir, drwy siapio coed byw'n aml. Gwaith sy'n tynnu ar y ffurfiau naturiol sydd i'w cael mewn tirwedd ydi **Two Twmps on Block** lle mae'r ffurfiau sydd wedi eu cerfio o balmwydd yn awgrymu twmpathau bychan neu fryniau. Weithiau bydd ei gerfluniaeth wedi eu llosgi'n rhannol â chwythlampau i gynhyrchu arwyneb sydd wedi'i dduo. Enghraifft o ddefnyddio'r dechneg yma ydi **Black River** lle mae canlyniad cynio a llosgi arwyneb y pren yn cynhyrchu effaith dŵr yn crychdonni.

Mae Nash wedi gwneud nifer o gerfluniau â'r teitl **King and Queen** a ysbrydolwyd, o bosib, gan weithiau Henry Moore 'King and Queen'. Ym mhob fersiwn mae dau ffurf tenau wedi eu cerfio o foncyffion coed, wedi eu llosgi a'u rhoi efo'i gilydd er mwyn awgrymu perthynas rhwng y ffigurau.

Yn achlysurol caiff Nash ei ysbrydoli gan ffurfiau o law dyn, er enghraifft **Two Falling Spoons**. Cafodd ei ysbrydoli i wneud llwyau i ddechrau gan ffreutur Abaty Tournus, Ffrainc lle'r oedd yn arddangos yn 1998. Mae wedi parhau i gerfio ffurfiau llwyau dros y blynyddoedd, pan fydd yn dod o hyd i foncyff coeden neu ganghennau sy'n awgrymu'r siâp fel rheol.

**Ash Dome 2005:** Yn 1977 plannwyd cylch o lasbrennau ynn mewn lleoliad cyfrinachol yn Nyffryn Ffestiniog, Gogledd Cymru gyda'r nod o greu gofod ar siâp cromen ar gyfer yr 21g. Gwnaethpwyd y darlun hwn gan Nash fel ffordd o ddelweddu sut y byddai'r coed yn ffurfio'r siâp yma. Mae'r fideo yma'n dogfennu'r prosiect ac yn dangos sut mae'r gwaith wedi datblygu dros y blynyddoedd: <http://www.culturecolony.com/videos?id=1126>

## Gweithgareddau

**Trafodwch** ddarlun yr *Ash Dome*. Cyn i chi ddweud beth ydi o wrth y myfyrwyr, gofynnwch iddyn nhw beth y maen nhw'n ei feddwl ydi o a pham. Gofynnwch iddyn nhw wneud copi ar eu cyfer eu hunain ac i'w droi'n rhywbeth arall gan ddefnyddio pensiliau lliw, e.e. ogof, cwt, wyneb... etc. Yna gwylwch y fideo!

**Cymharwch** y darlun ar gyfer yr *Ash Dome* â ffotograffau o'r gwaith wedi ei gwblhau. Sut mae Nash wedi awgrymu gofod yn ei ddarlun? Sut mae o wedi dychmygu twf y coed? Gan ddefnyddio eich dychmyg, gwnewch eich brasluniau eich hun ar gyfer prosiect tebyg e.e. cromen o flodau, twnnel bedw, wal o wair....byddwch yn ddyfeisgar! Fe allech ofyn i'r myfyrwyr wneud darlun o sut fydd y gromen yn edrych ymhen hanner can mlynedd.

**Casglwch** lwyau o siâp a maint gwahanol o'ch cartrefi a gwneud darluniau ohonyn nhw gan ddefnyddio gwahanol ddefnyddiau. Defnyddiwch ddalen o bapur A3 er mwyn i'ch llwyau allu bod yn FAWR!

**Gwnewch** frasluniau'n sydyn yn yr oriel o gerflun Nash o wahanol safleoedd. Symudwch o gwmpas y cerflun a gwnewch gymaint ag a allwch chi o amlinellau gwahanol ar yr un ddalen. Gallech fynd dros yr un darlun bob tro gan ddefnyddio pensil o liw gwahanol.

**Arluniwch** yr amlinellau o gerfluniau Nash a'u trosglwyddo i bapur o wead gwahanol - torrwrch nhw allan a gwneud 'collage' neu batrwm ailadroddus. Arbrofwch â ffigurau sengl wedi eu torri allan yn erbyn cefndiroedd gwahanol neu drwy greu grwpiau neu hyd yn oed 'dyrfa'.

**Trafodwch** beth mae 'haniaethol' yn ei olygu mewn celfyddyd. Fyddech chi'n disgrifio gwaith Nash fel 'haniaethol'? Os felly, pam? Ffeindiwch esiamplau o ffurfiau haniaethol yn yr arddangosfa a gwnewch frasluniau o'u siapiau.

**Gwylwch** fideo o Nash yn gwneud un o'i gerfluniau 'King and Queen':

<http://www.youtube.com/watch?v=EIAZ81TzFno>

### **Adnoddau Pellach:**

Norbert Lynton, *David Nash*, Thames and Hudson, 2007


Carolyn Davies and Lynne Bebb, *David Nash: A Place in the Wood*, Gwasg Gomer 2011

[http://www.kew.org/web-image/KPPCONT\\_060535?gallery=Ash-Dome-through-the-seasons](http://www.kew.org/web-image/KPPCONT_060535?gallery=Ash-Dome-through-the-seasons)



David Nash  
*Two Falling Spoons*, 1994  
Derw wedi ei gerfio a'i losgi 1900mm

**Guy Taplin *carved birds***



Guy Taplin  
*Nine Seabirds*  
Broc môr wedi ei gerfio a'i baentio  
u 680 x ll 1780 x d 150mm

Mae Guy Taplin, gŵr o Lundain, wedi bod â diddordeb mewn adar ers yn fachgen. Fe ddaeth yn brif warchodwr adar yn Sw Regents Park yn y 1970au a dechreuodd wneud cerfiadau o adar o bren. Yn dilyn arddangosfa lwyddiannus iawn yn Llundain yn 1978 lle cafwyd prynwyr ar gyfer ei waith i gyd, fe benderfynodd fod yn gerflunydd.

Bydd yn defnyddio broc môr ar gyfer ei gerfluniau, wedi ei gasglu gan fwyaf ar arfordir Swydd Essex ger ei gartref, a bydd yn prynu gleiniau plastig ar gyfer eu llygaid. Mae ei weithdy'n llawn o'r llawr i'r nenfwd â defnyddiau sydd wedi eu ffeindio ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Esbonia Taplin ei hoffter o ddefnyddiau sydd wedi eu taflu: 'I like remnants.... I want to make something wonderful from the residue of a life lived, of what people have used.'

Nid yw goddrychau Taplin yn gopiâu union o adar go iawn, ond yn ymateb personol yr artist. Weithiau bydd siâp y pren yn pennu'r ffurf y bydd y gwaith yn ei gymryd, a bydd nodweddion unigol yn cael eu naddu neu eu chwyddo i gipio hanfod neu ysbryd y creadur. Mae ei adar wedi eu disgrifio i fod yn nes at farddoniaeth na chywirdeb adaregol. Meddai, 'I cannot be creative if I am restricted to painstaking precision...Art must add to life.'

## Gweithgareddau

**Adeiladwch** 'ddarlun mewn gofod' â weiren drwy gopïo'r amlinell o un o adar Taplin. Gwthiwch y coesau i mewn i blastisin er mwyn i'ch cerflun sefyll ar ei ben ei hun.

**Ewch â llinell am dro!** Copïwch un o adar Taplin heb dynnu eich pensil oddi ar y papur - byddwch yn ddigymell a gadael i'ch llinell lifo'n rhydd. Rhowch gynnig ar yr ymarferiad yma gydag ystod o ddefnyddiau e.e. creon mawr, pen marcio, pensil liw etc. Gallech haenu'r gwahanol ddarluniau yma un ar ben y llall.

**Arluniwch** gerfluniau heb edrych ar y dudalen – cadwch eich llygaid ar y goddrych nes byddwch wedi gorffen. Dim twyllo! Bydd hyn yn eich helpu i ddatblygu eich cydlyniad llygaid-ymennydd-llaw. Gallech hefyd roi cynnig ar arlunio wrth wisgo mwgwd.

**Gwnewch** dempled drwy arlunio un o adar Taplin ar gerdyn a defnyddio hwn i wneud patrwm ailadroddus ar hyd ymyl dalen o bapur. Gallech ddefnyddio paent ffabrig i drosglwyddo hwn i gas gobennydd plaen, crys t neu liain sychu llestri.

**Cerfiwch** amlinellau adar mewn clai sy'n aer-sychu gan ddefnyddio eich darlun o gerfluniau Taplin fel arweiniad neu dempled.

**Arluniwch** esiamplau o wahanol adar yn ehedeg ar gardfwrdd. Cadwch y siapiau'n syml. Paentiwch nhw, torrwyd nhw allan neu eu hongian ar weiren i greu addurn symudol.

**Ymchwiliwch** yr adar sy'n lleol i'ch ardal chi. Cymerwch ffotograffau, gwnewch ddarluniau, casglwch ddelweddau, gwnewch 'collage'! Gwnewch ddarlun geiriau yn arddull Gary Breeze yn rhestru'r rhywogaethau.

## Adnoddau Pellach:

Michael Palin , Ian Collins and Andrew Montgomery, *Taplin Bird on a Wire: The Life and Art of Guy Taplin*, David Messum Fine Art, 2007

Ian Collins, *Guy Taplin: Driftwood Sculpture* David Messum Fine Art, 2009

Paul Sterry, *British Birds: a photographic guide to every common species*, Collins, 2008

John Busby and Bill Oddie, *Drawing Birds (RSPB)* Christopher Helm Publishers Ltd 2004

<http://www.courcoux.co.uk/sculptors/taplin/taplin.htm>

[http://www.eadt.co.uk/entertainment/the\\_bird\\_man\\_of\\_wivenhoe\\_1\\_795289](http://www.eadt.co.uk/entertainment/the_bird_man_of_wivenhoe_1_795289)

<http://www.studiopublications.com/excerpts/BirdOnAWire.pdf>

Julie Robson 2013

